Y Gwir Anrhydeddus Dafydd Elis Thomas AC
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Rhagfyr 2017

Annwyl Dafydd

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**

Y cefndir

Diolch ichi am ddod i gyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 16 Tachwedd i drafod cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

Cyn y cyfarfod, gofynnodd y Pwyllgor am ystod o wybodaeth am y rhannau hynny o'r gyllideb yr ydych chi bellach yn gyfrifol amdanynt ac sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Darparwyd papur i ni gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y pryd, dyddiedig 8 Tachwedd, ac fe'i cyhoeddwyd gan y Pwyllgor ynghyd â'r agenda a'r papurau eraill ar gyfer ein cyfarfod ar 16 Tachwedd.

Ar yr achlysur hwn, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu peidio â chyflwyno adroddiad ffurfiol ar y gyllideb i'r Cynulliad, ond serch hynny byddai'n ddiolchgar o gael ymateb gennych i'r pwyntiau a nodir isod. Byddwn yn cyhoeddi eich ymateb a byddai'n ddefnyddiol pe gallech ei ddarparu cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol, a gynhelir ym mis Ionawr yn ôl yr hyn a ddeallaf.

Materion Penodol

*Buddsoddi yn y sector celfyddydau ledled Cymru*

Gwnaethoch sôn, mewn perthynas â chyllideb Cyngor y Celfyddydau, ei bod hi'n bwysig rhannu'r buddsoddiad yn y celfyddydau yn fwy cyfartal ledled Cymru yn eich barn chi. Yn benodol, gwnaethoch sôn am yr angen i fuddsoddi yn Abertawe a gogledd Cymru yn yr un ffordd, neu o leiaf mewn ffordd gymesur â'r hyn a welir yn y sefydliadau cenedlaethol yng Nghaerdydd.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn croesawu'r bwriad hwn. Fodd bynnag, a oes gennych unrhyw gynlluniau penodol mewn golwg? A yw hyn yn rhywbeth a gaiff ei

adlewyrchu yn llythyr cylch gwaith y Cyngor Celfyddydau? Os felly, pa gamau penodol eraill y byddwch yn gofyn iddo eu cymryd a pha arweiniad a ddarperir gennych o ran sut y dylai flaenoriaethu adnoddau er mwyn cyflawni'r bwriad?

*Gwella mynediad a chynyddu incwm*

Gwnaethoch nodi bod ehangu mynediad i'r celfyddydau a diwylliant yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Nododd eich swyddogion hefyd fod y gwaith o ledaenu a chynyddu ffrydiau incwm yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n cyd-fynd â'r nod o wella mynediad, neu hyd yn oed fel ffordd o wneud hynny. Mae'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw welliant o ran amrywio incwm ein sefydliadau celfyddydol a diwylliannol cenedlaethol, yn enwedig o ran nawdd a rhoddion o'r sector preifat. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn y gallai mwy o amrywiaeth o ran cyllid arwain at gynyddu'r incwm o brisiau tocynnau. Gallai hyn olygu cynyddu prisiau tocynnau, neu weithredu rhaglen ddigwyddiadau mwy masnachol. Nid yw'r naill ddull na'r llall yn ymddangos yn gyson â'r ymdrechion i wella mynediad i'r celfyddydau.

Byddai'r Pwyllgor yn pryderu pe bai'r angen i gynyddu incwm drwy ddigwyddiadau â thâl mynediad yn cyfaddawdu'r flaenoriaeth o wella mynediad. Byddem yn ddiolchgar o gael eich barn ar sut y gellir taro cydbwysedd mewn ffordd sy'n cynyddu incwm heb effeithio'n andwyol ar y rhai llai cefnog.

*Celfyddydau Ieuenctid*

O ran buddsoddiad o'r sector preifat, gwnaethoch gyfeirio at y buddsoddiad a wnaed gan y sector preifat yng Nghymru, gan ddweud bod llawer ohono wedi'i gyfeirio at theatr ieuenctid a cherddoriaeth ieuenctid. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am y buddsoddiad hwn a lle y gwelwyd enghreifftiau ohono.

*Gwariant Cyfalaf yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod diffyg cynllunio ymlaen llaw wedi arwain at danwariant sylweddol o ran dyraniadau cyfalaf yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol, yn ôl adroddiadau’r sefydliadau hynny. Deallodd y Pwyllgor fod y cyllid hwn wedi'i drosglwyddo wedyn i brosiectau trafnidiaeth. Mae'r Pwyllgor yn gresynu nad oedd modd trosglwyddo'r tanwariant dan sylw i feysydd blaenoriaeth eraill ar gyfer gwariant cyfalaf yn y portffolio 'diwylliant' am nad oedd unrhyw brosiectau digon datblygedig ar gael.

Nododd y Pwyllgor y bydd yr arian i gwblhau'r gwaith cyfalaf yn y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol ar gael iddynt yn y dyfodol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oedd prosesau cynllunio yn caniatáu i gyllid gael ei wario yn y ffordd a ragwelwyd. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am y

sicrwydd a roddwyd gennych na fydd y sefyllfa hon yn codi eto ond byddai'n ddiolchgar am ragor o wybodaeth ynghylch pa welliannau penodol a wnaed:

- i'r prosesau cynllunio a monitro ariannol er mwyn osgoi'r broblem hon yn y dyfodol; ac
- i sicrhau bod prosiectau cyfalaf ar gael, yn y portffolio diwylliant a'r celfyddydau, y gellir eu cwblhau'n gyflym pe bai tanwariant ar gael yn y dyfodol.

*Oriel Gelf Genedlaethol ac Amgueddfa Bêl-droed*

Dyrannwyd £5 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer paratoi astudiaethau dichonoldeb ar gyfer Oriel Gelf Genedlaethol ac Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol. Yn ystod y cyfarfod, daeth yn amlwg mai dyraniad cyfalaf yw'r cyllid hwn ar gyfer y gwaith o ddatblygu'r prosiectau hyn yn dilyn astudiaethau dichonoldeb, ac felly tybiwn fod y rhain wedi eu cynnal eisoes? Ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet ar 8 Tachwedd nodwyd mai cyllid oedd hwn 'i gynnal astudiaethau dichonoldeb', felly byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am nodyn ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y prosiectau hyn a pha gostau y bwriedir eu talu gan ddefnyddio'r cyllid ychwanegol.

*Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan*

Gwnaethoch gytuno i roi nodyn i'r Pwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y buddsoddiad o £7 miliwn yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

*Dyfodol Cadw*

Roedd y Pwyllgor yn falch eich bod wedi nodi, cyn eich datganiad ffurfiol i'r Cynulliad ar 21 Tachwedd, bod y Cabinet wedi penderfynu y dylai Cadw barhau'n rhan o Lywodraeth Cymru. Trafodwyd nifer o faterion yn ymwneud â dyfodol Cadw yn ystod y cwestiynau'n dilyn eich datganiad yn y cyfarfod llawn, serch hynny byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi mwy o fanylion am yr hyblygrwydd a'r rhyddid gweithredol newydd a roddir i Cadw a sut y mae hyn yn wahanol i rannau eraill o wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

*Sylfaen sgiliau treftadaeth*

Ar fater arall sy'n ymwneud â Cadw, mae ei waith o reidrwydd yn golygu dibynnu ar weithwyr medrus iawn, fel seiri coed a seiri maen, sef gweithwyr y mae llai ohonynt yn yr economi gyffredinol erbyn hyn efallai nag a fu yn y gorffennol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am nodyn byr ar y trefniadau ar gyfer sicrhau parhad y sylfaen sgiliau hon yn y dyfodol. Gwnaethoch hefyd gytuno i rannu'r cytundeb partneriaeth sgiliau a wnaed gydag English Heritage, Historic Scotland a'r corff adeiladu ar gyfer y DU.

*Fforwm y Cyfryngau*

Nododd y Pwyllgor eich amheuon ynghylch pa mor werthfawr yw Fforwm y Cyfryngau a byddai'n croesawu penderfyniad cynnar ynghylch a fydd fforwm yn cael ei sefydlu bellach ai peidio. Mae gwaith y Pwyllgor yn y maes hwn wedi tynnu sylw at faint a difrifoldeb y materion y mae angen mynd i'r afael â hwy. Os na sefydlir fforwm cyfryngau, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael eich barn ar ffyrdd eraill y gall y Llywodraeth ymgysylltu'n rhagweithiol yn y maes hwn.

*Materion eraill*

Yn ogystal â'r uchod gwnaethoch hefyd gytuno i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y pwyntiau a ganlyn:

- Sut y bydd y £100,000 a ddynodwyd ar gyfer gweithredu argymhellion yr adolygiad o wasanaethau amgueddfeydd lleol yn cael ei ddyrannu; a
- faint o fusnesau sydd wedi cael cyllid gan Fusnes Cymru dros y pum mlynedd diwethaf sy'n bodloni'r diffiniad o fusnesau "ym maes newyddion lleol iawn"? Beth oedd maint y cyllid hwn, ar gyfer beth y cafodd ei ddefnyddio, a sut y cafodd ei rannu rhwng cyllid cyfalaf a refeniw?

Yn gywir

**Siân Gwenllian AC**
Cadeirydd Dros Dro